



## Uchafbwyntiau

28 Chwefror 2020

### Ffigur 1: Cyfanswm y dystysgrifau



Ffynhonnell: Casgliad data CG Cymwysterau Cymru o gyrrff dyfarnu



**11.7%**

Dyfarnwyd **51,890** o dystysgrifau rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2019. Mae hwn yn **11.7%** o ostyngiad o'i gymharu â'r un chwarter yn 2018, pan oedd **58,795** o dystysgrifau.

Rhwng mis Ionawr 2019 a mis Rhagfyr 2019 roedd **379,175** o dystysgrifau, sef **8.5%** o ostyngiad o'i gymharu â **414,290** rhwng mis Ionawr 2018 a mis Rhagfyr 2018.



**8.5%**

### Am y datganiad hwn

Mae'r datganiad ystadegol hwn yn cyflwyno gwybodaeth i Gymru a gasglwyd gan Cymwysterau Cymru o gyrrff dyfarnu. Mae'n cynnwys data am amrediad a nifer y dystysgrifau galwedigaethol a chymwysterau eraill a roddwyd yn ystod Hydref - Rhagfyr 2019 (chwarter 4). Casglwyd data Cymru cyn chwarter cyntaf 2019 gan Ofqual.

### Cynnwys

Cyflwyniad.....[2](#)  
 Ystadegau..... [6](#)  
 Rhestr termau.....[13](#)  
 Nodiadau Cefndir [16](#)

# CYFLWYNIAD

Mae Cymwysterau Cymru yn rheoleiddio cymwysterau, heblaw graddau, yng Nghymru. O dan Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015<sup>1</sup>, ein prif nodau yw sicrhau bod cymwysterau, a system gymwysterau Cymru, yn effeithiol i fodloni anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru a hyrwyddo hyder y cyhoedd mewn cymwysterau ac yn system gymwysterau Cymru.

Ers pedwerydd chwarter (Hydref-Rhagfyr) 2017, rydym wedi adrodd am dystysgrifau a roddwyd ar gyfer cymwysterau galwedigaethol ac eraill i Gymru. Nid yw'r data hwn yn cynnwys TGAU, Safon UG, Safon Uwch, Dyfarniadau Uwch Estynedig, cymwysterau Prif Ddysgu a Phrosiect. I ddechrau, buom yn adrodd am ddata a gasglwyd o gyrff dyfarnu gan Ofqual ar ein rhan. Ers chwarter cyntaf 2019 (2019 Ch1), rydym yn casglu data ac yn adrodd amdano ar gyfer cymwysterau a reoleiddiwn. Cyn pedwerydd chwarter 2017 (Hydref-Rhagfyr), Ofqual<sup>2</sup> a oedd yn casglu a chyhoeddi data i Gymru. Rydym wedi ceisio cymaint â phosibl cadw'r ystadegau hyn yn gyson â'r ystadegau cynharach hynny; ni wnaethpwyd newidiadau heblaw lle'r oedd yn glir y byddai gwneud hynny yn arwain at adrodd am ddata tystysgrifau cywirach.

Yn y datganiad hwn, cyflwynwn ddata am yr amrywiaeth o dystysgrifau a chymwysterau galwedigaethol ac eraill a roddwyd yn ystod pedwerydd chwarter 2019. Mae'r ffigurau'n cynrychioli nifer y tystysgrifau, wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf, a ddyfarnwyd gan gyrff dyfarnu rhwng 1 Hydref a 31 Rhagfyr 2019. Nid yw'r ystadegau hyn yn cynrychioli dysgwyr unigol, oherwydd gallai dysgwr fod wedi cyflawni nifer o dystysgrifau mewn unrhyw gyfnod a gynrychiolir yn y datganiad hwn.

Mae'r data a gasglwyd ar gyfer cymwysterau galwedigaethol ac eraill a restrir ar gronfa ddata Cymwysterau yng Nghymru (QiW)<sup>3</sup> neu ar ein rhestr fewnol o gymwysterau eraill a reoleiddir.

Rydym wedi datblygu ein dull ein hunain o lunio ac adrodd am yr ystadegau hyn, a hynny oherwydd:

- Mae ein dull rheoleiddio'n wahanol i Ofqual: mae Ofqual yn gofyn i gyrff dyfarnu optio cymwysterau i mewn i'w rheoleiddio, ond rydym ni'n mynnu bod cyrff dyfarnu'n optio cymwysterau allan nad ydynt yn

---

<sup>1</sup><http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/5/contents/enacted/welsh>

<sup>2</sup> Ofqual (2017) *Changes to the publication of geographical breakdowns of data*. [online]. Ar gael o: <https://www.gov.uk/government/news/changes-to-the-publication-of-geographical-breakdowns-of-data> [Cyrchwyd 06 Chwefror 2020].

<sup>3</sup> Cymwysterau yng Nghymru (QiW) yw cofrestr o gymwysterau a reoleiddir sy'n gymwys am gyllid cyhoeddus yng Nghymru. <https://www.qiw.wales/?lang=cy> [Cyrchwyd 06 Chwefror 2020].

dymuno cael eu rheoleiddio. Gallai'r data hanesyddol sy'n cael ei gynnwys yn y datganiad hwn gynnwys tystysgrifau am gymwysterau na wnaethom ni eu rheoleiddio, am fod rhai o'r cymwysterau a restrir ar gofrestr Ofqual yn debygol o fod wedi'u hildio i'w rheoleiddio yng Nghymru gan gyrff dyfarnu cydnabyddedig. Hefyd, efallai bydd nifer fechan o gymwysterau Cymru yn unig heb eu cynnwys mewn data hanesyddol oherwydd na fuont yn gymwys am gyllid cyhoeddus (h.y. eu rhestru ar QiW).

### **Dadansoddi tystysgrifau**

Mae'r cyhoeddiad hwn yn cynnwys dadansoddiadau o dystysgrifau cymhwyster yn ôl Maes Pwnc Sector (MPS) a lefel. Wrth lunio'r dadansoddiadau hyn, rydym wedi parhau i ddefnyddio methodoleg Ofqual. Ceir rhagor o fanylion yn adran 'Methodoleg' y nodiadau cefndir.

Priodolir lefel i bob cymhwyster. Disgrifir lefelau yn Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru<sup>4</sup>. Dengys y tabl ar frig y dudalen nesaf sut mae lefelau'n berthynol i'r mathau o gymwysterau galwedigaethol ac eraill ar gofrestr Ofqual a QiW. Mae mathau o gymhwyster a oedd heb eu dyfarnu yng Nghymru yn y 12 mis i ddiwedd Ch4 2019 wedi'u cysgoddi'n las yn y tabl.

---

<sup>4</sup><https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/disgrifyddion-lefel.pdf>

<b>Math o gymhwyster</b>	<b>Lefelau cyfredol</b>
Sgiliau Sylfaenol	Lefel Mynediad, Lefelau 1 a 2
AHGP <sup>6</sup>	Lefelau 1 i 6
Asesiad Pwynt Terfyn	Lefelau 2 i 7
Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill	Lefel Mynediad, Lefelau 1, 2 a 3
Lefel Mynediad	Lefel Mynediad
Sgiliau Hanfodol Cymru	Lefel Mynediad, Lefelau 1 i 3
Cymhwyster mathemateg annibynnol	Lefelau 1,2,3
Sgiliau gweithredol	Lefel Mynediad, Lefelau 1 a 2

<b>Math o gymhwyster</b>	<b>Lefelau cyfredol</b>
Lefel Uwch	Lefelau 4 i 8
AHGC <sup>5</sup>	Lefel Mynediad, Lefelau 1 i 5
Sgiliau allweddol	Lefelau 1 i 4
NVQ	Lefelau 1 i 5
Cymhwyster 'cyffredinol arall'	Lefelau 1, 1/2, 2 a 3
Cymhwyster galwedigaethol	Lefelau 1 i 4
QCF <sup>7</sup>	Lefel Mynediad, Lefelau 1 i 8
Cymhwyster perthynol i alwedigaeth	Lefel Mynediad, Lefelau 1 i 8
Bagloriaeth Cymru <sup>8</sup>	Lefelau 1, 1/2, 2 a 3

<sup>5</sup> Mae AHGC (neu IVET) yn sefyll am 'addysg a hyfforddiant galwedigaethol cychwynnol' ac mae'n ddsbarthiad ar gyfer cymwysterau galwedigaethol cyflwyniadol sy'n addas i bob oedran a gallu (gweler <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/llyfryn-fframwaith-credydau-a-chymwysterau-cymru.pdf>).

<sup>6</sup> Mae AHGP (neu CVET) yn sefyll am 'Addysg a hyfforddiant galwedigaethol parhaus' ac mae'n ddsbarthiad ar gyfer cymwysterau galwedigaethol cymhwysedd galwedigaethol i'r rheini dros 16 oed (gweler <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/llyfryn-fframwaith-credydau-a-chymwysterau-cymru.pdf>).

<sup>7</sup> Ar 1 Hydref 2015, tynnodd Ofqual yn ôl ofynion y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau (QCF). Fodd bynnag, am resymau gweinyddol, hyd haf 2016, gallai sefydliadau dyfarnu ddefnyddio'r math QCF o hyd ar system Ofqual ar gyfer cymwysterau newydd pan nad oedd unrhyw fath arall yn briodol. Yn dilyn penderfyniad Ofqual, gwnaethom hefyd dynnu'n ôl ofynion QCF o 1 Rhagfyr 2015. Pan gyflwynwyd QiW ar 1 Ebrill 2016, nid oedd cymwysterau newydd yn cael eu dosbarthu rhagor yn rhai QCF.

<sup>8</sup> Mae'r math 'Bagloriaeth Cymru' yn cynnwys Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru (ar bob lefel) a Bagloriaeth Cymru ar bob lefel (a'r eilbeth yn mynnu bod dysgwyr yn cyflawni cymwysterau eraill ar lefelau penodedig yn ogystal â'r Dystysgrif Her Sgiliau berthnasol).

## DYLANWADAU ALLANOL

### Bagloriaeth Cymru

Yn dilyn yr 'Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru'<sup>9</sup>, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2011, cyflwynwyd Bagloriaeth Cymru newydd i'w haddysgu gyntaf o fis Medi 2015. Pan gyflwynodd Llywodraeth Cymru Fagloriaeth Cymru, cyhoeddodd bolisi mabwysiadu cyffredinol. Golyga hyn fod Bagloriaeth Cymru ar gael i bob ysgol a Choleg AB ei chynnig, yn hytrach nag i'r rheini a gymeradwywyd i'w chynnig yn unig, a oedd yn wir gyda'r Fagloriaeth Cymru etifeddol. Mae'r polisi<sup>10</sup> hefyd yn gosod targedau i ysgolion a Cholegau AB gynyddu'n raddol y gyfran o fyfyrwyr sy'n cymryd Bagloriaeth Cymru, gyda'r nod y bydd mwyafrif helaeth y dysgwyr yng Nghymru yn ei chymryd erbyn 2019-20 yn rhan o'u rhaglen astudio. Mae Bagloriaeth Cymru ar ei newydd wedd yn cynnwys y Dystysgrif Her Sgiliau. Caiff tystysgrifau ar gyfer y Dystysgrif Her Sgiliau a Bagloriaeth Cymru eu cynnwys yn yr ystadegau yn y cyhoeddiad hwn.

Ar gyfer y Fagloriaeth Cymru etifeddol, gallai cymwysterau Sgiliau Allweddol a Sgiliau Hanfodol (ochr yn ochr â chymwysterau eraill) gyfrif tuag at y dyfarniad. Gallai dysgwr fod wedi cael tystysgrif nifer o gymwysterau Sgiliau Allweddol a Sgiliau Hanfodol i gyfrif tuag at y dyfarniad. Nid yw cymwysterau Sgiliau Allweddol a Sgiliau Hanfodol cyfredol yn cyfrif tuag at ddyfarniad y Fagloriaeth Cymru newydd yng Nghyfnod Allweddol 4 nac ar gyfer y Fagloriaeth Cymru Uwch. Fodd bynnag, gall cymwysterau newydd Sgiliau Hanfodol Cymru gyfrif tuag at Fagloriaeth Cymru Genedlaethol a Sylfaen Ôl-16. Mae'r newidiadau hyn yn effeithio ar gymariaethau dros amser yn y cyhoeddiad hwn.

### Mesurau Perfformiad

Efallai bod newidiadau i fesurau perfformiad hefyd yn effeithio ar nifer y tystysgrifau cymwysterau galwedigaethol ac eraill dros amser, yn enwedig ar lefelau 1 i 3. Er enghraifft, o 2017, cafodd cymwysterau galwedigaethol eu capio i roi uchafswm o 40% o'r pwyntiau at fesurau trothwy ysgol Llywodraeth Cymru (Cyfnod Allweddol 4). Yn 2018, cyflwynodd Llywodraeth Cymru newid pellach i fesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 ynglŷn â gwyddoniaeth, a chymwysterau TGAU Gwyddoniaeth yn unig

---

<sup>9</sup> Llywodraeth Cymru (2014) *Adolygiad o Gymwysterau 14-19* [ar-lein]. Ar gael o:

<https://llyw.cymru/adolygiad-o-gymwysterau-ar-gyfer-pobl-ifanc-14-i-19-oed-adroddiad-terfynol-ac-argymhellion> [Cyrchwyd 06 Chwefror 2020].

<sup>10</sup> Llywodraeth Cymru (2017) *Bagloriaeth Cymru ôl-16: cofnodi a mesur deilliannau* [ar-lein]. Ar gael o: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-07/bagloriaeth-cymru-ol-16cofnodi-a-mesur-deilliannau.pdf> [Cyrchwyd 06 Chwefror 2020].

yn cyfrif. O'r blaen, caniatwyd i gymwysterau gwyddoniaeth galwedigaethol gyfrif<sup>11</sup>.

## YSTADEGAU

### CYFANSWM Y TYSTYSGRIFAU A THUDDIADAU HANESYDDOL

**Tabl 1: Nifer y dystysgrifau a ddyfarnwyd yn ôl chwarter ac yn ôl 12 mis blaenorol i ddiwedd chwarter**

Cyfnod amser	Blwyddyn	Ch1	Ch2	Ch3	Ch4
		Ion-Maw	Ebr-Meh	Gorff-Med	Hyd-Rhag
Chwarterol	2014	112,965	182,365	258,795	68,670
	2015	94,070	164,620	295,930	59,650
	2016	86,085	115,010	251,035	59,055
	2017	54,425	82,710	226,505	57,595
	2018	53,765	85,415	216,310	58,795
	2019	50,555	61,610	215,120	<b>51,890</b>
12 mis hyd at ddiwedd y chwarter	2014	660,415	669,840	622,750	622,795
	2015	603,900	586,150	623,285	614,265
	2016	606,285	556,675	511,780	511,190
	2017	479,525	447,225	422,695	421,235
	2018	420,575	423,285	413,090	414,290
	2019	411,080	387,270	386,080	<b>379,175</b>

*Ffynhonnell: Casgliad data CG Cymwysterau Cymru o gyrff dyfarnu*

### Cymharu Chwarterau

Dyfarnwyd 51,890 o dystysgrifau rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2019. Mae hwn yn 11.7% o ostyngiad o gymharu â'r un chwarter yn 2018, pan oedd 58,795 o dystysgrifau.

### Cymharu Blynyddoedd

Rhwng mis Ionawr 2019 a mis Rhagfyr 2019 roedd 379,175 o dystysgrifau, sef 8.5% o ostyngiad o gymharu â 414,290 rhwng mis Ionawr 2018 a mis Rhagfyr 2018.

<sup>11</sup> Ceir rhagor o wybodaeth am newidiadau i fesurau perfformiad yng Nghymru yn: <https://digidoladata.blog.llyw.cymru/2017/12/06/diweddariad-gan-y-prif-ystadegydd-deall-newidiadau-i-ddata-addysg/> [Cyrchwyd 06 Chwefror 2020].

## TYSTYSGRIFAU YN ÔL MAES PWNC SECTOR (MPS)

**Tabl 2: Nifer y tystysgrifau a ddyfarnwyd yn ôl maes pwnc sector**


Maes Pwnc Sector	Cymhariaeth Chwarterol		Cymhariaeth Flynyddol	
	2018 Ch4	2019 Ch4	Ion 2018 i Rhag 2018	Ion 2018 i Rhag 2019
01 Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal	14,495	13,285	71,300	60,190
02 Gwyddoniaeth a Mathemateg	80	70	6,235	5,510
03 Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaid	1,290	835	6,950	3,955
04 Technolegau Peirianeg a Gweithgynhyrchu	4,180	3,510	21,465	20,210
05 Adeiladu, Cynllunio a'r Amgylchedd Adeiedig	3,900	4,505	18,665	22,535
06 Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	530	505	7,690	5,940
07 Manwerthu a Mentrau Masnachol	5,165	5,335	28,145	27,020
08 Hamdden, Teithio a Thwristiaeth	2,740	2,200	16,150	15,305
09 Celfyddydau, Cyfryngau a Chyhoeddi	5,045	4,630	28,615	26,095
10 Hanes, Athroniaeth a Diwinyddiaeth	0	0	135	70
11 Gwyddorau Cymdeithasol	*	0	390	1,005
12 Ieithoedd, Llenyddiaeth a Diwylliant	845	590	10,740	5,725
13 Addysg a Hyfforddiant	925	875	4,375	3,955
14 Paratoi at Fywyd a Gwaith	16,440	12,375	170,460	159,125
15 Busnes, Gweinyddiaeth a'r Gyfraith	3,165	3,190	22,965	22,525
<b>Cyfanswm</b>	<b>58,795</b>	<b>51,890</b>	<b>414,290</b>	<b>379,175</b>

*Ffynhonnell: Casgliad data CG Cymwysterau Cymru o gyrrff dyfarnu*

Y prif sectorau pwnc yn y chwarter hwn oedd 'Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal' (13,285 o dystysgrifau, 25.6% o'r cyfanswm) a 'Paratoi at Fywyd a Gwaith' (12,375 o dystysgrifau, 23.8% o'r cyfanswm). 'Adwerthu a Menter Fasnachol' (5,335 o dystysgrifau, 10.3% o'r cyfanswm) oedd y trydydd sector pwnc â'r nifer mwyaf o dystysgrifau yn Ch4 2019. Cynyddodd niferoedd 'Adeiladu, Cynllunio a'r Amgylchedd Adeiedig' o ran y chwarter (15.5% o gynnydd) a'r 12 mis diwethaf (20.7% o gynnydd).

Gan y sector 'Paratoi at Fywyd a Gwaith' yr oedd nifer mwyaf y tystysgrifau ym mis Ionawr 2019 i fis Rhagfyr 2019 (159,125 neu 42.0% o'r cyfanswm). Yn y sector hwn, cafwyd 6.6% o ostyngiad yn nifer y tystysgrifau a ddyfarnwyd o gymharu â mis Ionawr 2018 i fis Rhagfyr 2018 (170,460). Y sector 'Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal' oedd yr ail fwyaf gyda 60,190 o dystysgrifau (15.9% o'r cyfanswm), sef 15.6% yn llai o dystysgrifau o gymharu â mis Ionawr 2018 i fis Rhagfyr 2018.

**Ffigur 2: Newid canran yn y tystysgrifau a ddyfarnwyd yn ôl maes pwnc sector (MPS), Ch4 2019 o'i gymharu â Ch4 2018**



Ffynhonnell: Casgliad data CG Cymwysterau Cymru o gyrff dyfarnu

(\*) Ataliwyd MPS â llai na 100 o dystysgrifau mewn chwarter.

Dengys Ffigur 2 mai 'Gwyddorau Cymdeithasol' a gafodd y gostyngiad cyfraneddol mwyaf (100.0%) yn y tystysgrifau a ddyfarnwyd yn Ch4 2019 o gymharu â Ch4 2018. Y meysydd pwnc sector eraill a gafodd ostyngiadau amlwg oedd 'Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaid' (35.4%) ac 'Ieithoedd, Llenyddiaeth a Diwylliant' (29.9%).

Dim ond sectorau pwnc 'Adeiladu, Cynllunio a'r Amgylchedd Adeiledig' (15.5%), 'Adwerthu a Menter Fasnachol' (3.3%) a 'Busnes, Gweinyddu a'r Gyfraith' (0.8%) a gafodd gynnydd cyfraneddol yn Ch4 2019 o gymharu â Ch4 2018.



## TYSTYSGRIFAU YN ÔL LEFEL

**Tabl 3: Nifer y tystysgrifau a ddyfarnwyd yn ôl lefel**

Lefel	Cymhariaeth Chwarterol		Cymhariaeth Flynyddol	
	2018 Ch4	2019 Ch4	Ion 2018 i Rhag 2018	Ion 2018 i Rhag 2019
Lefel Mynediad	4,965	3,950	32,435	30,665
Lefel 1	10,010	8,480	57,870	51,935
Lefel 1/2	65	70	63,825	63,500
Lefel 2	25,330	21,605	140,280	122,900
Lefel 3	16,320	15,850	109,465	100,570
Lefel 4	1,075	920	4,785	4,305
Lefel 5	905	905	4,325	3,940
Lefel 6	55	60	895	805
Lefel 7	65	55	405	550
Lefel 8	*	0	*	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>58,795</b>	<b>51,890</b>	<b>414,290</b>	<b>379,175</b>

*Ffynhonnell: Casgliad data CG Cymwysterau Cymru o gyrrff dyfarnu*

Dengys Tabl 3 nifer y tystysgrifau yn ystod chwarter 4, o'u cymharu â'r un chwarter yn 2018, ac yn ystod y 12 mis diwethaf, o gymharu â'r 12 mis blaenorol. Roedd y ddwy lefel â'r nifer mwyaf o dystysgrifau yn Ch4 2019 (lefel 2, lefel 3) yn cyfrif am 72.2% o gyfanswm y tystysgrifau ar gyfer y chwarter. Roedd yr un lefelau'n cyfrif am 58.9% o'r cyfanswm blynyddol.

Yn y rhan fwyaf o lefelau, gwelwyd gostyngiad yn nifer y tystysgrifau a ddyfarnwyd yn Ch4 2019 o gymharu â Ch4 2018. Yn Lefel 2 (-3,725 i lawr 14.7%) a Lefel 1(-1,530 i lawr 15.3%) y cafwyd y gostyngiad mwyaf mewn termau real ac yn lefel Mynediad y cafwyd y gostyngiad cyfraneddol mwyaf (-20.4%).

Sbardunwyd y gostyngiad cyffredinol mewn tystysgrifau, sef 8.5% dros y 12 mis diwethaf, yn bennaf gan ddyfarnu llai o dystysgrifau lefel 2 (i lawr 17,380), lefel 3 (i lawr 8,895) a lefel 1 (i lawr 5,935).

## Y PRIF GYRFF DYFARNU YN RHOI TYSTYSGRIFAU

**Tabl 4: Y 10 prif gorff dyfarnu â'r nifer uchaf o dystysgrifau a roddwyd yn y 12 mis i ddiwedd y chwarter hwn**

Corff dyfarnu	Ion 2018 i Rhag 2018	Ion 2018 i Rhag 2019	Safle Ion 2018 i Rhag 2018	Safle Ion 2018 i Rhag 2019	Newid Safle
WJEC-CBAC	91,630	90,470	1	1	➔ +0
City and Guilds of London Institute	88,595	79,055	2	2	➔ +0
Pearson Education Ltd	54,250	38,020	3	3	➔ +0
Highfield Qualifications	31,995	32,540	4	4	➔ +0
Agored Cymru	18,990	18,225	5	5	➔ +0
Qualsafe Awards	12,500	14,700	6	6	➔ +0
Associated Board of the Royal Schools of Music	10,540	10,230	8	7	⬆ +1
Trinity College London	8,985	8,530	9	8	⬆ +1
Excellence, Achievement & Learning Limited	8,575	7,605	10	9	⬆ +1
NCFE	4,775	6,325	12	10	⬆ +2

*Ffynhonnell: Casgliad data CG Cymwysterau Cymru gan gyrrff dyfarnu*

Dengys Tabl 4 y deg prif gorff dyfarnu a oedd yn rhoi tystysgrifau dros y 12 mis diwethaf i ddiwedd y chwarter hwn, o'u cymharu â'r 12 mis blaenorol. Cadwodd CBAC-WJEC ei le yn safle'r corff dyfarnu â'r nifer uchaf o dystysgrifau yn ystod y 12 mis diwethaf, am iddo ddyfarnu dros 90,000 o dystysgrifau dros y cyfnod hwnnw. Arhosodd City and Guilds of London Institute yn yr ail safle, ond rhoddodd 9,535 yn llai o dystysgrifau yn ystod y 12 mis diwethaf o gymharu â'r 12 mis blaenorol (i lawr 10.8%).

Mae Pearson Education Ltd yn parhau yn y trydydd safle ond cafwyd gostyngiad cyfraneddol mawr yn nifer y tystysgrifau a roddwyd yn y 12 mis diwethaf, i lawr 16,230 (-29.9%) i 38,020. Sbardunwyd y newid hwn yn bennaf gan ostyngiadau mewn tystysgrifau a roddwyd ar gyfer cymwysterau lefel 2 a lefel 3 gan ddyfarnu 12,040 yn llai o dystysgrifau dros y 12 mis diwethaf i ddiwedd y chwarter hwn, o gymharu â'r 12 mis blaenorol (i lawr 32.0%).

Mae NCFE yn newydd-ddyfodiad i'r 10 prif gorff dyfarnu yn rhoi tystysgrifau, yn dilyn cynnydd o 1,550 o dystysgrifau, a hynny'n bennaf oherwydd 1,960 (i fyny 85.3%) o dystysgrifau lefel 2 ychwanegol. Cwmpodd OCR allan o'r 10 brig, gan ddyfarnu 6,400 yn llai (-58.8%) o dystysgrifau dros y 12 mis diwethaf. Roedd hyn yn cynnwys gostyngiad sylweddol yn nifer y tystysgrifau 'leithoedd, Llenyddiaeth a Diwylliant' (-4,680, i lawr 97.2%).

## Y PRIF GYMWYSTERAU A RODDODD DYSTYSGRIFAU

**Tabl 5: Y 10 prif gymhwyster â'r nifer uchaf o dystysgrifau a ddyfarnwyd yn ystod y chwarter hwn**

<b>Cymhwyster</b>	<b>2018 Ch4</b>	<b>2019 Ch4</b>
Highfield Dyfarniad Lefel 3 Cymorth Cyntaf ar frys yn y Gwaithle (RQF)	1,475	1,790
QA Lefel 3 Dyfarniad mewn Cymorth Cyntaf Brys yn y Gwaith (RQF)	1,225	1,775
City & Guilds Level 3 Award in the Requirements for Electrical Installations BS767:2018	460	1,235
Highfield Dyfarniad Lefel 2 mewn Diogelwch Bwyd ym maes Arlwyo (RQF)	2,005	1,220
City & Guilds Dyfarniad Lefel 2 mewn Sgiliau Llythrennedd Digidol Hanfodol	995	980
City & Guilds Dyfarniad Lefel 2 mewn Sgiliau Cyfathrebu Hanfodol	890	915
City & Guilds Dyfarniad Lefel 2 mewn Sgiliau Cymhwysio Rhif Hanfodol	930	880
QA Level 3 Award in First Aid at Work (Annual Refresher) (RQF)	885	875
Entry Level Certificate in ESOL International Speaking and Listening (Entry 3) (GESE Grade 5) (B1.1)	0	775
RSPH Level 2 Award in Food Safety and Hygiene	620	695

*Ffynhonnell: Casgliad data CG Cymwysterau Cymru o gyrff dyfarnu*

Dengys Tabl 5 y deg prif gymhwyster â'r nifer uchaf o dystysgrifau yn ystod y chwarter diwethaf o gymharu â nifer y dystysgrifau ar gyfer yr un cymwysterau yn yr un chwarter yn y flwyddyn flaenorol.

Roedd y deg prif gymhwyster yn cyfrif am 11,140 o dystysgrifau (21.5% o'r cyfanswm). O'r deg cymhwyster brig hyn a gafodd dystysgrifau yn Ch4 2018, o gymharu â'r un chwarter y flwyddyn ddiwethaf, 'Dyfarniad Lefel 3 City & Guilds yn y Gofynion ar gyfer Gosodiadau Trydanol BS767:2018' a gafodd y cynnydd cyfraneddol mwyaf (167.5%) a 'Dyfarniad Lefel 2 Highfield mewn Diogelwch Bwyd mewn Arlwyo (RQF)' a gafodd y gostyngiad cyfraneddol mwyaf (39.3%).

**Tabl 6: Y 10 prif gymhwyster â'r nifer uchaf o dystysgrifau a ddyfarnwyd yn y 12 mis diwethaf**

<b>Cymhwyster</b>	<b>Ion 2018 i Rhag 2018</b>	<b>Ion 2018 i Rhag 2019</b>
CBAC Tystysgrif Her Sgiliau Sylfaen/Genedlaethol (Bagloriaeth Cymru)	26,960	27,125
CBAC Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol/Sylfaen	25,950	26,415
CBAC Tystysgrif Her Sgiliau Uwch (Bagloriaeth Cymru)	12,045	11,660
CBAC Bagloriaeth Cymru Uwch	10,185	9,945
Highfield Dyfarniad Lefel 3 Cymorth Cyntaf ar frys yn y Gwaithle (RQF)	6,615	7,330
Highfield Dyfarniad Lefel 2 mewn Diogelwch Bwyd ym maes Arlwyo (RQF)	8,425	6,800
QA Lefel 3 Dyfarniad mewn Cymorth Cyntaf Brys yn y Gwaith (RQF)	5,260	5,855
City & Guilds Dyfarniad Lefel 2 mewn Sgiliau Llythrennedd Digidol Hanfodol	6,215	5,145
City & Guilds Dyfarniad Lefel 2 mewn Sgiliau Cyfathrebu Hanfodol	4,105	4,665
LIBF Tystysgrif Lefel 2 mewn Gallu Ariannol a Datblygu Gyrfaoedd	4,030	4,415

*Ffynhonnell: Casgliad data CG Cymwysterau Cymru o gyrff dyfarnu*

Dengys Tabl 6 y deg prif gymhwyster â'r nifer uchaf o dystysgrifau yn y 12 mis diwethaf o gymharu â'r 12 mis blaenorol.

Mae cymwysterau sy'n rhan o fframwaith Bagloriaeth Cymru ymhlith y pedwar prif gymhwyster a ddyfarnwyd dros y 12 mis diwethaf, a Thystysgrif Her Sgiliau Genedlaethol/Sylfaen CBAC (Bagloriaeth Cymru) ar y brig gyda 27,125 o dystysgrifau. 2017 oedd y flwyddyn gyntaf y cafodd y cymhwyster hwn, ynghyd â Bagloriaeth Cymru Genedlaethol/Sylfaen CBAC dystysgrif swyddogol (gweler [dylanwadau allanol](#) i gael gwybod rhagor).

Ar wahân i gymwysterau Bagloriaeth Cymru a'r Dystysgrif Her Sgiliau, y cymwysterau a ddyfarnwyd fwyaf oedd Dyfarniad Lefel 3 Highfield mewn Cymorth Cyntaf Brys yn y Gwaith (RQF) a Dyfarniad Lefel 2 Highfield mewn Diogelwch Bwyd mewn Arlwyo (RQF), a gafodd dystysgrif 7,330 a 6,800 o weithiau yn y drefn honno.

# RHESTR TERMAU

## **Cymeradwyo cymwysterau/meini prawf cymeradwyo/cymwysterau cymeradwy**

Pan restrir cymhwyster ar y Rhestr Cymwysterau Blaenoriaeth, cyhoeddwn feini prawf cymeradwyo ar ei gyfer. Cymeradwyo yw'r broses a ddefnyddiwn i gymeradwyo cymwysterau felly mewn perthynas â'r meini prawf cymeradwyo. Efallai na fydd cymwysterau cymeradwy'n cael eu rheoleiddio gan reoleiddwyr cymwysterau eraill yng Nghymru ac fe'u cynllunnir fel arfer i fodloni anghenion penodol dysgwyr yng Nghymru.

## **Corff dyfarnu**

Sefydliad sy'n datblygu cymwysterau, yn enwi a monitro asesiadau ac yn rhoi dyfarniadau i ddysgwyr, gan gydnabod yn ffurfiol y canlyniadau dysgu (gwybodaeth, sgiliau a/neu gymwyseddau), yn dilyn gweithdrefn asesu a dilysu. Mewn rhannau eraill o'r DU gelwir y rhain yn Sefydliadau Dyfarnu neu'n Fyrddau Arholi.

## **Cydnabyddiaeth corff dyfarnu**

Er mwyn cynnig cymwysterau wedi'u rheoleiddio yng Nghymru, rhaid bod corff dyfarnu wedi'i gydnabod gan Cymwysterau Cymru. Mae angen i gyrff dyfarnu gydymffurfio â'n meini prawf cydnabod ac ymgeisio am gydnabyddiaeth.

## **Tystysgrif/Ardystio**

Cydnabyddiaeth ffurfiol o gyflawniad myfyriwr. Bydd hwn yn unrhyw ddyfarniad sydd heb ei raddio yn U, absennol, neu X (methu).

## **Dyddiad terfyn ardystio**

Ni chaiff cymhwyster ei ddyfarnu i ddysgwyr, yn gymhwyster cymeradwy neu ddynodedig, ar ôl y dydiad hwn.

## **Cymwysterau Dynodedig**

Cymwysterau wedi'u rheoleiddio a ddynodwyd gan Cymwysterau Cymru yn rhai cymwys i'w defnyddio ar raglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer dysgwyr o dan 19 oed, fel y'u diffinnir o dan adran 29 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015. Ystyriwn nifer o faterion wrth bennu a ddylid dynodi cymwysterau.

## **Cymhwyster Cyffredinol**

Mae hwn yn disgrifio cymwysterau sy'n cael eu cymryd yn nodweddiadol gan ddysgwyr yn yr ysgol neu'r coleg yn rhan o'u haddysg statudol neu bellach. Mae hyn yn cynnwys TGAU, Safon UG ac Uwch a Bagloriaeth Cymru a chymwysterau eraill sy'n rhannu rhai o'r nodweddion sy'n gyffredin i TGAU a Safon Uwch. CBAC yw prif ddarparwr y cymwysterau hyn yng Nghymru, er bod rhai'n cael eu cynnig hefyd gan gyrff dyfarnu eraill.

## **Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol**

Cymwysterau sy'n berthynol i waith ac yn seiliedig ar gymhwysedd, sy'n ymdrin ag ystod eang o alwedigaethau a sectorau diwydiant ac sy'n cael eu cyflenwi mewn safle gweithle.

## **Cofrestr Ofqual**

Mae'r Gofrestr o Gymwysterau a Reoleiddir<sup>12</sup> yn cynnwys manylion y cymwysterau a'r sefydliadau dyfarnu sy'n cael eu rheoleiddio gan Ofqual a CCEA Regulation.

## **Cyffredinol eraill**

Cymwysterau sy'n asesu maes pwnc penodol, fel cerddoriaeth neu gelf, heblaw TGAU, Safon UG a Safon Uwch. Nid yw'r cymwysterau hyn yn uniongyrchol berthynol i waith ond efallai eu bod yn cefnogi datblygiad gyrfa. Maent hefyd yn aml wedi'u strwythuro mewn perthynas ag arholiadau sy'n cael eu graddio. Mae'r categori hefyd yn cynnwys cymwysterau wedi'u categoreiddio yn dystysgrifau lefel 1/2.

## **Cymwysterau eraill a reoleiddir**

Y cymwysterau hynny a ddyfarnir yng Nghymru gan gyrrff dyfarnu cydnabyddedig, sydd heb eu dynodi na'u cymeradwyo gan Cymwysterau Cymru, ac nad yw cyrrff dyfarnu wedi'u hildio na'u hesgusodi o gwmpas eu cydnabyddiaeth.

## **Math o Gymhwyster**

Cyfeiria math o gymhwyster at grwpiau o gymwysterau a ddatblygwyd i fodloni gofynion cynllunio cyffredin. Efallai na fydd y gofynion cynllunio ar gyfer rhai mathau o gymhwyster yn effeithiol rhagor, fel ar gyfer cymwysterau QCF (a gynlluniwyd i fodloni gofynion y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau).

## **Lefel Gymhwyster**

Lefel y cyrhaeddiad y mae cymhwyster yn ei gynrychioli fel y'i diffinnir gan Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (CQFW). Mae Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru yn cyd-redeg â Fframwaith Cymwysterau Ewrop (EQF). Golyga hyn y gellir cymharu lefel cymhwyster a enillwyd yng Nghymru â lefel yn yr EQF. Mae hyn yn helpu pobl a sefydliadau i drosi cyflawniadau rhwng gwledydd a gweithio ledled yr UE.

## **Y Fframwaith Credydau a Chymwysterau (QCF)**

Fframwaith, a ddaeth i ben erbyn hyn, ar gyfer cymwysterau sy'n cynnwys unedau a chymwysterau o dri maint, sef dyfarniadau (1-12 credyd), tystysgrifau (13-36 credyd) a diplomâu (37 neu fwy o gredydau).

---

<sup>12</sup><https://register.ofqual.gov.uk/>.

## **Cymwysterau yng Nghymru (QiW)**

Cronfa ddata sydd ar gael yn gyhoeddus sy'n darparu ffynhonnell o wybodaeth am gymwysterau cymeradwy a dynodedig a ddyfarnir yng Nghymru<sup>13</sup>.

### **Chwarter**

Sy'n cyfeirio at chwarterau calendr. Cyfeiria Chwarter 1 (Ch1) at fisoedd Ionawr – Mawrth, chwarter 2 (Ch2) at fisoedd Ebrill – Mehefin, chwarter 3 (Ch3) at fisoedd Gorffennaf – Medi, a chwarter 4 (Ch4) at fisoedd Hydref – Rhagfyr.

### **Cymwysterau a reoleiddir**

Pob cymhwyster heblaw graddau (boed yn gymeradwy, dynodedig neu arall a reoleiddir) a gynigir i'w dyfarnu gan gorff dyfarnu a gydnabyddir gan Cymwysterau Cymru (heblaw naill ai bod corff dyfarnu wedi ildio ei gydnabyddiaeth o ran y cymhwyster hwnnw, neu fod corff dyfarnu wedi hepgor y cymhwyster hwnnw o gwmpas ei gydnabyddiaeth drwy roi gwybod i Lywodraeth Cymru cyn 21 Medi 2015).

### **Maes Pwnc Sector (MPS)**

Meysydd pwnc sector yw'r gyfres o gategorïau ar sail sectorau diwydiant a phynciau academaidd a ddefnyddir i ddsbarthu cymwysterau.

### **Is-faes Pwnc Sector (sef categori Pwnc Sector o'r blaen)**

Is-feysydd sector yw'r ail haen o gategorïau ar sail sectorau diwydiant a phynciau academaidd a ddefnyddir i ddsbarthu cymwysterau.

### **Ildio Cydnabyddiaeth**

Efallai y daw cydnabyddiaeth i ben pan benderfyna corff dyfarnu ildio naill ai cydnabyddiaeth rannol neu lawn. Efallai bydd cyrff dyfarnu cydnabyddedig yn ildio rhan o'u cydnabyddiaeth drwy hysbysu Cymwysterau Cymru am gymwysterau, neu ddisgrifiadau o gymwysterau, yr hoffent eu cynnig yn gymwysterau heb eu rheoleiddio. Mewn achosion felly, ni all y cymwysterau heb eu rheoleiddio gario logo Cymwysterau Cymru ar dystysgrifau a roddir i ddysgwyr.

### **Cymhwyster Galwedigaethol (VQ)**

Cymwysterau a ddyfarnir ac a ardystir gan gorff dyfarnu, a gymerir gan ddysgwyr o 14 oed ymlaen, ac sy'n asesu, gwybodaeth, dealltwriaeth a/neu sgiliau sy'n benodol gysylltiedig â'r byd gwaith. Mae'r cymwysterau hyn yn is-set o'r cymwysterau sydd wedi'u cynnwys yn yr ystadegau yn y cyhoeddiad hwn.

### **Cymwysterau perthynol i alwedigaeth**

Cymwysterau sy'n berthynol i waith, ac yn seiliedig ar gymhwysedd, wedi'u cynllunio i ddarparu i fyfyrwyr y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i wneud swydd. Maent yn

---

<sup>13</sup><https://www.qiw.wales/?lang=cy>.

berthynol i gyflogaeth ond, yn wahanol i gymwysterau NVQ, nid ydynt o reidrwydd yn mynnu profiad neu asesiad yn y gweithle.

## NODIADAU CEFNDIR

### Statws

Ar 21 Tachwedd 2017 cymeradwyodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru Orchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2017 a enwodd Cymwysterau Cymru ymhlith y cyrff sydd yng nghwmpas Deddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007. Rydym wedi datblygu ein prosesau i sicrhau ein bod yn llawn fodloni ein rhwymedigaethau yn gynhyrchwr ystadegau swyddogol, gan ganiatáu i'r datganiad ystadegol hwn gael ei gyhoeddi'n ffurfiol yn ystadegyn swyddogol.

### Ffynhonnell y Data

Cyflwynwyd nifer y tystysgrifau a ddyfarnwyd am bob cymhwyster galwedigaethol neu arall yn ystod Chwarter 4 2019 (Hydref- Rhagfyr 2019) i Cymwysterau Cymru gan gyrrff dyfarnu. Nid yw'r tystysgrifau ond i ddysgwyr a gafodd eu hasesu'n llwyr neu'n bennaf mewn canolfannau sydd yng Nghymru, ni waeth y math o ganolfan. Nid yw'n cynnwys y Dyfarniad Uwch Estynedig, TGAU, cymwysterau Safon UG a Safon Uwch, Prosiect a Phrif Ddysgu. Mae nifer y tystysgrifau a ddyfarnwyd ar gyfer y cymwysterau hyn ar gael ar wefan y Cydgyngor Cymwysterau<sup>14</sup>.

Cyn pedwerydd chwarter 2017, byddai data Cymru am gymwysterau galwedigaethol ac eraill yn cael ei gasglu a'i adrodd gan Ofqual. Rhwng 4ydd chwarter 2017 a 4ydd chwarter 2018 (cynhwysol), casglodd Ofqual ddata Cymru ar gyfer cymwysterau galwedigaethol ac eraill a'i ddarparu i Cymwysterau Cymru er mwyn llunio'r adroddiad chwarterol hwn. Ers chwarter 1af 2019, mae'r data hwn yn cael ei gasglu a'i adrodd gan Cymwysterau Cymru. Ym mis Ebrill 2019, hysbysodd Ofqual y cyrff dyfarnu am ei fwriad i gasglu data tystysgrifau chwarterol galwedigaethol ar gyfer holl ranbarthau'r DU, ac felly bydd yn parhau i gasglu data cymwysterau galwedigaethol Cymru at ei ddibenion mewnol ei hun<sup>15</sup>.

Cynhaliodd Cymwysterau Cymru ac Ofqual gasgliadau data galwedigaethol cyfochrog ar gyfer 4ydd chwarter 2018 a chwarter 1af 2019. Diben hyn oedd darparu cyfnod pontio lle gallem brofi ein systemau casglu data a sicrhau ansawdd y data a

---

<sup>14</sup><https://www.jcq.org.uk/>

<sup>15</sup>[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/797024/RO65.2019\\_international\\_certificates\\_and\\_qualifications.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/797024/RO65.2019_international_certificates_and_qualifications.pdf)



gasglwyd gennym drwy ei gymharu â'r data a gasglwyd gan Ofqual. Defnyddiwyd dadansoddiad o unrhyw wahaniaethau rhwng y ddau gasgliad er mwyn llywio'r ymgysylltiad â chyrrff dyfarnu i sicrhau a gwella ansawdd y data a gyhoeddir yn yr adroddiad hwn. Gwnaeth rhai cyrrff dyfarnu newidiadau i'r data galwedigaethol a gyflwynant o ganlyniad i'r gwaith hwn. Nid yw'n sicr a fydd cyrrff dyfarnu'n ailadrodd y newidiadau hyn yn eu cyflwyniad data i Ofqual; felly, nid ydym mewn sefyllfa i bennu i ba raddau y mae casglu'r data inni'n hunain wedi effeithio ar niferoedd tystysgrifau a grybwyllwyd.

Disgwylir gwahaniaethau rhwng y cyfansymiau tystysgrif a gasglwn a'r hyn y mae Ofqual yn ei gasglu gan gyrrff dyfarnu, oherwydd mân wahaniaethau yng nghwmpas pob casgliad. Nid yw is-set fechan o gymwysterau eraill a reoleiddir yng Nghymru yn unig yn ymddangos ar gofrestr Ofqual nac ar QiW a byddent wedi cael eu colli o gasgliadau data galwedigaethol hanesyddol Ofqual ar gyfer Cymru. Ni fydd y data galwedigaethol Cymru a gasglwn yn cynnwys rhagor o gymwysterau sydd wedi'u hildio o gwmpas ein cydnabyddiaeth ond sydd wedi'u rhestru o hyd ar gofrestr Ofqual. Llunnir ein templedi cymhwyster gan ddefnyddio QiW a'r rhestr o gymwysterau eraill a reoleiddir ac felly byddant yn darparu cwmpas cyflawn o'r maes cymwysterau galwedigaethol ac eraill a reoleiddir yng Nghymru.

Mae gwybodaeth am gymwysterau cymeradwy neu ddynodedig a gynigir yng Nghymru ar gael ar wefan Cymwysterau yng Nghymru (QiW)<sup>16</sup>.

## Methodoleg

Mae nodweddion cymhwyster sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn, fel maes sector pwnc (MSP) a lefel, yn seiliedig ar gofrestr Ofqual a chronfa ddata QiW. Ar gyfer chwarterau hyd at a chan gynnwys 4ydd chwarter 2018, roedd templed casglu data Ofqual yn caniatáu i gyrrff dyfarnu gyflwyno data ar gyfer yr un cymhwyster mewn perthynas â rhif QiW (dynodwr unigryw ar gyfer cymwysterau yng nghronfa ddata QiW), QAN (dynodwr unigryw ar gyfer cymwysterau ar gofrestr Ofqual) neu gyfran mewn perthynas â'r ddau ar gyfer Cymru. Lle cyflwynodd cyrrff dyfarnu ddata i Ofqual gyda rhif QiW, tynnwyd y nodweddion cymhwyster o gronfa ddata QiW, a lle mae cyrrff dyfarnu'n cyflwyno data gan ddefnyddio QAN, tynnwyd nodweddion cymhwyster o gofrestr Ofqual.

Bydd addasu fformat ein templedi casglu data yn caniatáu un cyflwyniad data yn unig fesul cymhwyster o chwarter 1af 2019. Bydd hyn yn gwaredu risg cyrrff dyfarnu yn cyfrif tystysgrifau ddwywaith drwy gyflwyno'r un dystysgrif ar gam mewn perthynas â rhif QiW a'r QAN. Am nad ydym ond yn casglu data ar gyfer

---

<sup>16</sup><https://www.qiw.wales/?lang=cy>

cymwysterau a restrir ar QiW ar ein rhestr o gymwysterau eraill a reoleiddir, cymerir yr holl nodweddion cymhwyster o chwarter 1af 2019 o'n cronfa ddata. Defnyddir nodweddion o gofrestr Ofqual ar gyfer data hanesyddol yn unig ar gyfer cymwysterau heb eu rhestru ar ein cronfa ddata.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys data hanesyddol am y 5 mlynedd ddiwethaf. Lle mae cymwysterau'n fyw o hyd ar y cofrestri, bydd y data hanesyddol a gyhoeddir yn yr adroddiad hwn yn dangos y nodweddion hyn fel y maent ar y diwrnod y cafodd yr adroddiad ei gyhoeddi am y chwarter diwethaf. Os nad yw'r cymhwyster yn fyw rhagor, adroddir y nodweddion diweddaraf a gofnodwyd ar gyfer y cymhwyster hwnnw ar y cofrestri. Mae hyn yn unol â methodoleg Ofqual.

### **Cwmpas Daeryddol**

Yn y datganiad hwn, cyflwynir data am nifer y tystysgrifau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol ac eraill ar gyfer chwarter 4 (Hydref - Rhagfyr 2019) ar gyfer canolfannau sydd yng Nghymru. Nid yw'r datganiad hwn yn cynnwys cymwysterau galwedigaethol ac eraill a gymerwyd y tu allan i Gymru, na thystysgrifau ar gyfer TGAU, Safon UG, Safon Uwch, Dyfarniad Uwch Estynedig, Prosiect a Phrif Ddysgu.

### **Cyfyngiadau data**

Er ein bod yn ceisio casglu tystysgrifau mewn perthynas â dysgwyr a aseswyd yn llwyr neu'n bennaf mewn canolfan yng Nghymru, mae'n bosibl y gallai dysgwyr o'r tu allan i Gymru gael eu cynnwys yn y data a gyflwynir gan rai cyrff dyfarnu. Un sefyllfa lle gallai hyn ddigwydd yw dyfarnu tystysgrif i ddysgwr o bell (h.y. nid oes canolfan). Rydym wedi cyfarwyddo cyrff dyfarnu i ddefnyddio cyfeiriad y dysgwr yn absenoldeb canolfan, ond nid yw'r wybodaeth hon bob amser yn cael ei chasglu gan ddysgwyr.

Mae Ofqual wedi casglu data hanesyddol i Gymru ar ein rhan. Yn eu nodiadau cefndir, maent yn disgrifio cyfyngiadau'r data:

"Casglir data cyn gynted â phosibl, sef diwrnod cyntaf y cyfnod adrodd nesaf. Mae hyn yn lleihau'r amser rhwng y gweithgarwch ac adrodd am y gweithgarwch. Mae prif ffynhonnell y gwall posibl yn yr wybodaeth a ddarperir gan gyrff dyfarnu. Ni all Ofqual sicrhau bod nifer y tystysgrifau a gyflwynwyd yn gywir a gall fod tueddiad systematig pan anfonir yr wybodaeth, er bod disgwyl i sefydliadau dyfarnu ddarparu'r data cywir. Mae Ofqual yn cymharu'r data dros amser ac yn chwilio am faterion systematig. Anfonir data cryno wedyn yn ôl i'r sefydliadau dyfarnu i'w wirio a'i gadarnhau. Mae'r ffigurau a adroddir yn y datganiad hwn yn adlewyrchu'r tystysgrifau a gyhoeddwyd gan sefydliadau dyfarnu adeg casglu'r data."

Ar 04 Mai 2018 tynnodd Ofqual yn ôl gydnabyddiaeth o'r Awarding Body for Vocational Achievement (AVA) Ltd (yn masnachu fel BAA). Trowch at y [dudalen hon](#) am ragor o fanylion. Yn rhan o'r ymchwiliad a ragflaenodd y penderfyniad canfuwyd y bu AVA yn darparu data tystysgrifau anghywir i Ofqual. Nid yw'n ymarferol cael data wedi'i gywiro gan AVA, ond gwyddys fod maint y cywiriadau'n fychan. Roedd gan AVA niferoedd tystysgrif isel iawn (tua 15 yn y 5 mlynedd ddiwethaf yn y data presennol) felly nid yw'r anghywirdebau hyn yn effeithio'n sylweddol ar y tueddiadau cyffredinol yn y data. Felly, rydym wedi adrodd y data AVA presennol fel y mae yn y datganiad ystadegol hwn.

## Cymariaethau

Casglwyd y data hwn yr un ffordd y mae Ofqual wedi casglu data ar gyfer chwarterau blaenorol. Mae Ofqual yn nodi ymlaen llaw ar eu ffurflenni casglu data enwau'r cymwysterau o'u cofrestr ac o'n cronfa ddata QiW; rydym wedi dilyn strategaeth debyg, yn llenwi templedi gan ddefnyddio ein cronfa ddata QiW a rhestr o gymwysterau eraill sy'n cael eu rheoleiddio sy'n cael ei diweddarau gan gyrff dyfarnu. Ar gyfer y cyhoeddiad hwn rydym wedi gwaredu cymwysterau gan gyrff dyfarnu nad ydym yn eu cydnabod o ddata hanesyddol. Gwnaethom hyn am y 5 mlynedd ddiwethaf wedi'u cynnwys yn y cyhoeddiad hwn a'r tablau data cyfatebol. Lle mae corff dyfarnu wedi ildio cydnabyddiaeth ar ddechrau chwarter (e.e. 1 Ionawr), gwaredwyd data ar gyfer y corff dyfarnu hwnnw o'r chwarter hwnnw ymlaen. Lle mae corff dyfarnu wedi ildio cydnabyddiaeth ran o'r ffordd drwy chwarter, mae'r data ar gyfer y chwarter hwnnw yn cael ei gynnwys lle bo ar gael, ac mae'r corff dyfarnu wedi'i waredu o'r data o'r chwarter canlynol ymlaen. Mewn nifer fechan o achosion, mae corff dyfarnu wedi ildio cydnabyddiaeth ac yna wedi'i gydnabod eto yn ddiweddarach. Yn yr achosion hynny, ni hepgorwyd data heblaw pan nad oedd y corff dyfarnu'n cael ei gydnabod drwy gydol y chwarter.

Felly, efallai na fydd cyfansymiau blynyddoedd a chwarterau hanesyddol yn cyfateb i'r hyn a gyhoeddwyd gan Ofqual. Dengys y tabl isod yr effaith y mae hyn wedi'i chael ar gyfansymiau am bob chwarter:

Quarter	2012.4	2013.1	2013.2	2013.3	2013.4	2014.1	2014.2	2014.3	2014.4	2015.1
Number of certificates removed	90	45	110	230	*	55	110	75	105	0
Percentage of total certificates	0.15%	0.05%	0.06%	0.07%	0.00%	0.05%	0.06%	0.03%	0.16%	0.00%

Quarter	2015.2	2015.3	2015.4	2016.1	2016.2	2016.3	2016.4	2017.1	2017.2	2017.3
Number of certificates removed	0	20	280	265	130	215	215	245	225	180
Percentage of total certificates	0.00%	0.01%	0.47%	0.31%	0.11%	0.09%	0.36%	0.45%	0.27%	0.08%

Yn achos dwy bartneriaeth o gyrff dyfarnu - CBAC-EDEXCEL a Pearson EDI - gwyddom na throsglwyddwyd eu cydnabyddiaeth draw i Cymwysterau Cymru pan gafodd ei sefydlu ym mis Awst 2015. Ni ddyfarnodd CBAC-EDEXCEL unrhyw dystysgrifau ar ôl Ch3 2013, a gwelodd Pearson EDI ostyngiad mawr mewn dystysgrifau o Ch2 2015 ymlaen. O ystyried y tueddiadau a ddisgrifiwyd, mae data ar gyfer y partneriaethau hyn wedi'i gynnwys hyd at a chan gynnwys Ch3 2015 (h.y. tan sefydlu Cymwysterau Cymru) a'i hepgor ar ôl hynny. Dengys y tabl isod y data ar gyfer y cyrff dyfarnu hyn - mae'r ffigurau a amlygwyd â chysgodi wedi'u gwaredu o'r data ar gyfer y datganiad hwn:

Quarter	2012.4	2013.1	2013.2	2013.3	2013.4	2014.1	2014.2	2014.3	2014.4	2015.1
<b>Pearson EDI Certificates</b>	1210	1415	1835	1050	1385	1480	1745	1905	1205	1085
<b>WJEC-EDEXCEL Certificates</b>	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0

Quarter	2015.2	2015.3	2015.4	2016.1	2016.2	2016.3	2016.4	2017.1	2017.2	2017.3
<b>Pearson EDI Certificates</b>	345	420	205	140	45	30	10	0	0	0
<b>WJEC-EDEXCEL Certificates</b>	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0

## Sicrhau ansawdd

Am fod Cymwysterau Cymru bellach yn casglu'r data hwn ein hunain, rydym yn gyfrifol am sicrhau ei ansawdd. Mae manylion ynghylch y prosesau a ddilynwn i sicrhau ansawdd y data hwn wedi'u cynnwys yn ein Datganiad Interim ar Ansawdd Ystadegol a'n dogfen Sicrhau Ansawdd Ffynonellau Data Gweinyddol<sup>17</sup>. Bu data hanesyddol yn destun gweithdrefnau sicrhau ansawdd Ofqual, a gynhaliwyd fel yr eglurwyd yn y Fframwaith Sicrhau Ansawdd ar gyfer Cyhoeddiadau Ystadegol<sup>18</sup> a gyhoeddwyd gan Ofqual i sicrhau cywirdeb y data ac i'w herio neu ei gwestiynu, lle bod angen. Ceir rhagor o wybodaeth hefyd yn nodiadau cefndir datganiad chwarterol Ofqual am gymwysterau galwedigaethol ac eraill<sup>19</sup>.

Efallai bydd oedi cyn cyhoeddi os ystyrir nad yw'r ystadegau'n addas at ddiben.

## Diwygiadau

Ar ôl ei gyhoeddi, nid yw data am nifer y dystysgrifau cymhwyster galwedigaethol fel arfer yn destun diwygio, er gall datganiadau dilynol ei ddiwygio er mwyn mewnosod data hwyr neu i gywiro gwall.

<sup>17</sup><https://qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/polisi-sicrhau-ansawdd-a-datganiad-o-ffynonellau-gweinyddol/>

<sup>18</sup><https://www.gov.uk/government/publications/ofquals-statistics-policies-and-procedures>

<sup>19</sup><https://www.gov.uk/government/collections/statistics-vocational-qualifications>

## Talgrynnu a Chyfrinachedd

I ddiogelu cyfrinachedd, ac yn unol â pholisi allbynnau ystadegol Cymwysterau Cymru<sup>20</sup>, caiff ffigurau sy'n llai na 5 ond yn fwy na 0 eu disodli â \*. Gwneir hyn i sicrhau nad yw'r data'n datgelu ymgeisydd unigol. Caiff pob ffigur ei dalgrynnu ar gyfer nifer y tystysgrifau a gyhoeddwyd. Yn y sylwadau a'r tablau, cânt eu talgrynnu i'r 5 agosaf. Mae pob canran yn y sylwadau yn seiliedig ar ffigurau gwirioneddol. Mae ffigurau wedi'u talgrynnu'n annibynnol ac felly efallai na fyddant yn creu'r cyfanswm o'u hadio.

## Defnyddwyr yr ystadegau hyn

Mae'r ystadegau hyn yn debygol o fod o ddiddordeb i Cymwysterau Cymru, Ofqual, cyrff dyfarnu, a Llywodraeth Cymru. Croesawn adborth gan ddefnyddwyr er mwyn deall yn well pwy yw ein defnyddwyr dros amser. Defnyddia Cymwysterau Cymru yr ystadegau hyn i lywio dealltwriaeth o bartymau ardystio, ac i helpu i gynorthwyo monitro cymwysterau galwedigaethol.

## Ystadegau a chyhoeddiadau perthynol

Mae Ofqual yn cyhoeddi ystadegau ar gymwysterau galwedigaethol ar gyfer Lloegr<sup>21</sup>.

Ymchwil ac Ystadegau a gyhoeddir gan y Cyngor Cwricwlwm, Arholiadau ac Asesu (CCEA)<sup>22</sup>.

Ystadegau a gyhoeddir gan Awdurdod Cymwysterau yr Alban (SQA)<sup>23</sup>.

Ystadegau a gyhoeddir gan Eurostat<sup>24</sup>.

## Gwybodaeth ddefnyddiol

Mae rhestr termau ar gael ar dudalen 13 i'ch helpu i ddehongli'r datganiad hwn. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am gyhoeddiadau'r dyfodol ar wefan Llywodraeth Cymru<sup>25</sup>.

Mae cronfa ddata QiW<sup>26</sup> yn rhoi gwybodaeth am gymwysterau cymeradwy a dynodedig sy'n gymwys am arian cyhoeddus yng Nghymru.

## Y diweddariad nesaf

---

<sup>20</sup><https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/polisi-allbynnau-ystadegol/>

<sup>21</sup><https://www.gov.uk/government/collections/statistics-vocational-qualifications>.

<sup>22</sup><https://ccea.org.uk/regulation/reports-statistics>

<sup>23</sup><https://www.sqa.org.uk/sqa/48269.8311.html>.

<sup>24</sup><https://ec.europa.eu/eurostat/web/education-and-training/overview>.

<sup>25</sup><https://llyw.cymru/ystadegau-ac-ymchwil?upcoming=true&lang=cy>

<sup>26</sup><https://www.qiw.wales/?lang=cy>

Mehefin 2020 (dros dro).

**Adborth defnyddwyr**

Croesawn unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn y gellir ei roi drwy e-bost i [statistics@qualificationswales.org](mailto:statistics@qualificationswales.org).

© (2020) Rhoir caniatâd i atgynhyrchu cyhyd ag y cyfeirir at Cymwysterau Cymru yn ffynhonnell wreiddiol.